Senedd Cymru
Cardiff Bay
CF99 1NA

June 2021

WELSH YOUTH PARLIAMENT

LAUNCH OF SECOND WELSH YOUTH PARLIAMENT ELECTION CAMPAIGN 2021

Dear Stakeholder,

I am writing to inform you that the second Welsh Youth Parliament election campaign will be launched today on the 3rd of June 2021, with voter registration opening and youth organisations encouraged to apply to become official Welsh Youth Parliament partner organisations for the new term. The key dates are:

Launch of the Welsh Youth Parliament election campaign and voter registration to the second Welsh Youth Parliament election	3 June 2021
Application process to become an official Welsh Youth Parliament partner organisation **Become a partner organisation (senedd.wales)**	3 June - 28 June 2021
Candidate nomination	5 July – 20 September 2021
National online elections	1 – 22 November 2021
Member announcement	December 2021
First national meeting of the Welsh Youth Parliament	February 2022

The Welsh Youth Parliament is a made up of 60 11-18 year olds from across Wales. 40 of the 60 Welsh Youth Parliament Members will be returned through national, online elections in November, while 20 of the 60 Welsh Youth Parliament Members will be returned by partner organisations to ensure the representation of diverse groups of young people.

The first set of Welsh Youth Parliament Members elected gained invaluable skills during their two year term and we hope you can help encourage your young people who are eligible to engage with this opportunity to register to vote, nominate themselves as candidates and vote in the online elections. It would also be extremely useful if you could encourage parents, guardians, carers and tutors to engage and encourage young people to take part.

With the voting franchise extended to include 16 and 17 year olds in Wales, we believe more strongly than ever that young people take part in the democratic process and have their voices heard. Over recent months staff from the Senedd's Education and Youth Engagement Team have delivered online engagement sessions to school, colleges and youth groups to help promote the recent Senedd elections, work of the Senedd and Welsh Youth Parliament (WYP). These sessions will continue online, until face to face sessions can resume. Details about upcoming training can be found here **https://senedd.wales/visit/education-and-youth-engagement/train-the-trainer/**

For further information, please email hello@youthparliament.wales or you can visit the youth parliament website **www.youthparliament.wales**. Please also follow us on twitter @welshyouthparl @seneddieuenctidcymru.

Yours sincerely,

Welsh Youth Parliament Team

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English

SENEDD IEUENCTID CYMRU
WELSH YOUTH PARLIAMENT

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Mehefin 2021

SENEDD IEUENCTID CYMRU

LANSIO YMGYRCH ETHOLIAD AIL SENEDD IEUENCTID CYMRU 2021

Annwyl Rhanddeiliad,

Rwy'n ysgrifennu i roi gwybod i chi y bydd ail ymgyrch etholiad Senedd Ieuenctid Cymru yn cael ei lansio heddiw, 3 Mehefin 2021, pan fydd y cyfnod cofrestru pleidleiswyr yn dechrau a sefydliadau pobl ifanc yn cael eu hannog i wneud cais i ddod yn sefydliadau partner swyddogol Senedd Ieuenctid Cymru ar gyfer y tymor newydd. Amlinellir y dyddiadau allweddol isod:

Lansio ymgyrch etholiad Senedd Ieuenctid Cymru a chofrestru pleidleiswyr ar gyfer ail etholiad Senedd Ieuenctid Cymru	3 Mehefin 2021
Proses o wneud cais i ddod yn sefydliad partner swyddogol Senedd Ieuenctid Cymru **Dod yn bartner (senedd.cymru)**	3 Mehefin - 28 Mehefin 2021
Enwebu ymgeiswyr	5 Gorffennaf – 20 Medi 2021
Yr etholiadau cenedlaethol ar-lein	1 – 22 Tachwedd 2021
Cyhoeddi enwau'r aelodau	Rhagfyr 2021
Cyfarfod cenedlaethol cyntaf Senedd Ieuenctid Cymru.	Chwefror 2022

Mae Senedd Ieuenctid Cymru yn cynnwys 60 o bobl ifanc 11-18 mlwydd oed o bob rhan o Gymru. Bydd 40 o'r 60 aelod o Senedd Ieuenctid Cymru yn cael eu dewis drwy etholiadau cenedlaethol, ar-lein, ym mis Tachwedd, a bydd 20 o'r 60 aelod o Senedd Ieuenctid Cymru yn cael eu dewis gan sefydliadau partner, i sicrhau y ceir cynrychiolaeth o blith grwpiau amrywiol o bobl ifanc.

Llwyddodd aelodau'r Senedd Ieuenctid gyntaf i feithrin sgiliau amhrisiadwy yn ystod y cyfnod o ddwy flynedd y buont yn gwasanaethu, ac rydyn ni'n gobeithio y gallwch chi annog eich pobl ifanc sy'n gymwys i fanteisio ar y cyfle hwn i gofrestru i bleidleisio, i enwebu eu hunain fel ymgeiswyr, ac i bleidleisio yn yr etholiadau ar-lein. Byddai hefyd yn hynod ddefnyddiol pe gallech annog rhieni, gwarcheidwaid, gofalwyr a gweithwyr addysg proffesiynol i ennyn diddordeb ac annog pobl ifanc i gymryd rhan.

Gyda'r etholfraint bleidleisio bellach wedi'i hymestyn i gynnwys pobl ifanc 16 a 17 mlwydd oed yng Nghymru, rydym yn credu'n gryfach nag erioed y rydym yn credu'n gryfach nag erioed y dylai pobl ifanc fod yn rhan o'r broses ddemocratiaeth fel bod eu lleisiau yn cael eu clywed. Hoffwn roi gwybod i chi bod staff o Dîm Addysg ac Ymgysylltu â Phobl Ifanc y Senedd wedi cynnal sesiynau ymgysylltu ar-lein ag ysgolion, colegau a grwpiau ieuenctid er mwyn hyrwyddo Etholiad y Senedd a gynhaliwyd yn ddiweddar, ynghyd â gwaith y Senedd a Senedd Ieuenctid Cymru. Bydd y sesiynau hyn yn parhau i gael eu cynnal ar-lein, nes y gallwn ailddechrau cynnal sesiynau wyneb yn wyneb. Am wybodaeth am sesiynau hyfforddiant ewch i'r wefan **https://senedd.cymru/ymweld-a-ni/addysg-ac-ymgysylltu-a-phobl-ifanc/hyfforddi-r-hyfforddwr/**

I gael rhagor o wybodaeth, anfonwch neges e-bost at helo@seneddieuenctid.cymru, neu ewch i wefan y Senedd Ieuenctid **www.seneddieuenctid.cymru**. Gallwch ein dilyn ni ar Twitter hefyd @seneddieuenctidcymru @welshyouthparliament.

Yn gywir,

Tîm Senedd Ieuenctid Cymru

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English